DATGANAID I'R WASG
26 Tachwedd 2009

Criw Ceredigion yn trafod newid hinsawdd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Fel rhan o Ymgyrch Tick Tock, bydd un disgybl ar ddeg o ysgolion uwchradd Ceredigion yn teithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Rhagfyr i gyfarfod Jane Davidson, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai.

Mae disgyblion o Ysgolion Dyffryn Teifi, Penglais, Llambed a Phenweddig wedi eu gwahodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arbennig i drafod newid hinsawdd.

Mae Guto Gwilym, Awen Mair a Hana Morris o Ddyffryn Teifi, Carys Jones a Sophie Rudge o Benglais, Lowri Pugh Davies ac Elliw Mair Dafydd o Lambed ac Angharad Fflur, Rhys Hedd Pugh Evans, Tomi Turner a Geraint Davies o Benweddig yn aelodau o Fforwm Ieuenctid Ceredigion Urdd Gobaith Cymru.

Mae Ymgyrch Tick Tock yn cynnig cyfle i bobl ifanc Cymru ddweud wrth gynrychiolwyr etholedig eu bod yn mynnu gweld newidiadau cadarnhaol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau lles y blaned a'i phobl.

Yn ystod Hydref 2009, bu Ymgyrch Tick Tock yn gweithio gyda 150 o fudiadau, ysgolion a busnesau er mwyn ceisio datblygu dealltwriaeth well ynghylch yr angen i daclo newid hinsawdd a thrwy hynny, trosglwyddo gwybodaeth angenrheidiol i wleidyddion er mwyn rhoi cytundebau cryf yn eu lle i ddiogelu ein dyfodol.

Mae'r criw wedi eu dewis i berfformio Neges Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru yn Eisteddfod yr Urdd 2010 yn Llanerchaeron. Dros y misoedd diwethaf, maent wedi bod yn cydweithio i lunio neges gref wedi'i seilio ar thema'r neges eleni sef newid hinsawdd. Daethant at ei gilydd mewn gweithdai i gyfansoddi'r neges, a hynny o dan arweiniad sylfaenydd Ymgyrch Tick Tock ac un o Arwyr Gwyrdd Cymru, Aled Vaughan Owen.

Bydd Jane Davidson yn teithio i gynhadledd y Cenhedloedd Unedig yn Copenhagen ar 7 Rhagfyr. Testun y gynhadledd yw newid hinsawdd ac mae Jane Davidson yn awyddus i farn pobl ifanc gael ei gynrychioli yn y gynhadledd honno. Bydd y cyfarfod yng Nghynulliad Cymru heb os yn gyfle gwych i ieuenctid Ceredigion leisio eu barn ynghylch newid hinsawdd a chael dylanwadu ar rai o benderfyniadau pwysig Copenhagen.

Ar 2 Rhagfyr bydd y criw hefyd yn cael taith o amgylch adeilad y Cynulliad, cyfarfod Elin Jones, Gweinidog dros Faterion Gwledig ac Aelod Cynulliad Ceredigion yn ogystal â sgwrs gyda Phrif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru, Efa Gruffudd Jones.

Meddai Efa Gruffudd Jones;
‘‘Bydd cyfarfod Jane Davidson yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru o brofiad gwerthfawr i griw Fforwm Ieuenctid Ceredigion Urdd Gobaith Cymru. Bydd yn gyfle unigryw iddynt drafod newid hinsawdd a bydd y profiad yn eu cynorthwyo i greu Neges Heddwch ac Ewyllys Da gref, mewn partneriaeth ag Ymgyrch Tick Tock.’’

Diwedd

Am fanylion pellach, cysylltwch â Manon Wyn, 01970 613115, manonwyn@urdd.org

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau’r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon,
- eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.